7fed Chwefror 2024

Annwyl Riant/Ofalwr,

**Toriadau i Gyllidebau - Yr Effaith a geir ar ein Hysgolion**

Mae'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r toriadau sydd i ddod ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Wrecsam, gan gynnwys y gwasanaethau addysg. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd y cyfyngiadau ariannol a osodir ar ein hysgolion yn cyflwyno heriau sylweddol ac yn rhoi pob ysgol, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a chyfrwng Cymraeg mewn sefyllfa gyllidebol anodd iawn.

Mae ffactorau allanol, gan gynnwys chwyddiant a chynnydd mewn costau, ynghyd â chyfyngiadau cyllidebol ar lefel genedlaethol a llywodraeth y DU wedi arwain at effaith sylweddol ar wariant llywodraeth leol. Bu cynnydd bychan i gyllideb addysg Cymru ond mae cyfradd chwyddiant hynod uchel wedi golygu toriadau sylweddol i gyllidebau mewn termau real. O ganlyniad, mae setliadau cyllidebau ysgolion ar gyfer 2024/25 a'r dyfodol yn creu sefyllfa gyllidol hynod o anodd i bob un ohonom. Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu yw'r effaith a gaiff hyn ar ddysgwyr ar draws Wrecsam.

Mae'r cynnydd a gafwyd mewn costau egni eisoes wedi rhoi baich enfawr ar gyllidebau ysgolion ac mae'r cynnydd parhaus yn ychwanegu at yr anawsterau a amlinellwyd uchod. Yn ogystal, mae grantiau Llywodraeth Cymru y mae ysgolion yn eu defnyddio i gefnogi ein dysgwyr ac ysgogi gwelliant mewn ysgolion, mewn perygl.

Felly am y rhesymau hyn, ysgrifennwn atoch i sicrhau y caiff pob rhiant a gofalwr y darlun llawn am y canlyniadau sylweddol y mae bob ysgol yn eu hwynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â'n cyllidebau yn ogystal â'r effaith ddilynol ar y gwasanaethau gallwn eu darparu.

Byddwn yn wynebu cyfnod cythryblus a digynsail o safbwynt cyllid a chyllidebau ac amlinellir yr effaith debygol isod:

- Bydd ysgolion yn ei chael hi'n anodd cynnal a datblygu cwricwlwm cynhwysfawr sy'n cwrdd ag anghenion amrywiol ein holl ddysgwyr.
- Bydd cyfyngiadau ar adnoddau, gan gynnwys amser aelodau o staff i gynnal gweithgareddau allgyrsiol a theithiau addysgol. Gall hyn leihau ehangder, cyfoethogrwydd ac ansawdd yr addysg yr ydym yn anelu at ei darparu.
- Bydd maint dosbarthiadau yn cynyddu.
- Bydd effaith ar Ddiwygio ADY sy'n golygu effaith ar y dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed wrth i wasanaethau cymorth arbenigol gael eu lleihau ar adeg pan fo angen mawr amdanynt.
- Bydd gostyngiad posibl i nifer y pynciau opsiwn i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.
- Bydd ysgolion yn ei chael hi'n anoddach i gydbwyso'r gyllideb a fydd yn arwain at ostyngiadau anochel mewn niferoedd staff a diswyddiadau.
- Bydd cyfleoedd am arloesedd yn cael eu rhwystro ar adeg pan fo newid a chyfleoedd mawr i gynnwys y Cwricwlwm Newydd i Gymru, cymwysterau arholiadau newydd a mentrau cenedlaethol pwysig.
- Bydd effaith anochel ar raglenni adeiladau a chynnal a chadw ysgolion.

Fel Prifathrawon, hoffem eich sicrhau y byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas i gynnal y ddarpariaeth graidd o fewn ein hysgolion. Bydd hyn yn cynnwys diogelu'r agwedd o ddysgu ac addysgu trwy roi ein dysgwyr a'n staff wrth wraidd popeth a wnawn. Fodd bynnag, credwn ei bod hi'n anochel, yn y tymor canolig o leiaf, na fyddwn yn gallu darparu a chynnal yr un lefel o gymorth a gwasanaethau ar draws ein hysgolion oherwydd y diffyg cyllidol.

Mae eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn yn amhrisiadwy. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein pryderon yn cael eu rhannu ar lefel leol a chenedlaethol. O ystyried hyn, byddem hefyd yn eich annog i leisio'ch pryderon gyda chynghorwyr lleol a Gweinidogion y Cynulliad fel bod teuluoedd yn cael dweud eu dweud am yr effaith a gaiff y toriadau hyn ar ein plant.

Yr eiddoch yn gywir,
**Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam.**